Docusign Envelope ID: 2FCCDB7E-E2AE-4B23-8983-D7A5D9F4419A

**DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

**ADRAN 16 (A) FEL Y'I DIWYGIWYD GAN**

**DDEDDF TRAFFIG FFYRDD (CYFYNGIADAU DROS DRO) 1991**

**GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN**

**(DIGWYDDIADAU ARBENNIG) (RALI ROGER ALBERT CLARK)**

**(RHEOLI TRAFFIG DROS DRO) 2025**

Gan y bydd y darnau ffyrdd a ddisgrifir yma yn orlawn ac yn debygol o fod wedi'u rhwystro rhwng **16:00 a 21:00 ddydd Mercher 19 Tachwedd 2025**, yn ystod **Rali Roger Albert Clark**.

Mae CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, yn unol â'i bwerau a roddir gan **Adran 16 (A) o Ddeddf Digwyddiadau Arbennig 1991**, DRWY HYN YN GORCHYMYN, at ddibenion atal rhwystr yn y darnau ffyrdd a ddisgrifir yma bod y rheoliadau canlynol yn cael eu dilyn:

1. Ac eithrio fel y nodir yn Rheoliadau 2 a 3 o'r Gorchymyn hwn, na chaniateir i neb, heblaw ei fod dan gyfarwyddyd neu gyda chaniatâd heddwas yn ei lifrai, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu neu berson awdurdodedig arall, achosi neu ganiatáu i unrhyw gerbyd deithio neu reidio neu yrru beic pedal ymlaen neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau ffyrdd canlynol:
   *Rhwng 16:00 a 21:00 Clos Mawr; a rhwng 18:00 a 21:00 Heol y Brenin, Heol y Frenhines, Maes Nott, Heol y Neuadd, Heol Awst, Porth Tywyll, Ffordd y Farchnad, Heol Morley, a Heol Mansel, Caerfyrddin.*
   Mae angen cau'r ffordd er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd yn ystod Rali Roger Albert Clark.

   2. Y ffordd arall ar gyfer traffig sydd am deithio tua'r de-orllewin ar hyd Heol y Brenin fydd parhau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar hyd Heol San Pedr hyd at y gylchfan fach. Wrth y gylchfan, defnyddio'r ail allanfa a pharhau i gyfeiriad y de-orllewin ar hyd yr A484 Heol yr Eglwys a Heol Spilman.
      Y ffordd arall ar gyfer traffig sydd am deithio tua'r gogledd-ddwyrain ar hyd Heol Las fydd parhau i gylchfan Heol Las. Wrth y gylchfan, defnyddio'r drydedd allanfa a pharhau i gyfeiriad y de-orllewin ar hyd yr A4242 hyd at gylchfan Lôn Morfa. Wrth y gylchfan, defnyddio'r ail allanfa a pharhau i gyfeiriad y gogledd-orllewin ar hyd Lôn Morfa.
      Y ffordd arall ar gyfer traffig sydd am deithio tua'r de-ddwyrain ar hyd Heol Morley a Ffordd y Farchnad, wrth deithio tua'r gogledd-ddwyrain ar hyd Heol y Gwyddau, fydd parhau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar hyd Heol y Gwyddau a Heol y Sgubor hyd at gylchfan Teras Francis. Wrth y gylchfan, defnyddio'r allanfa gyntaf a pharhau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain ar hyd Teras Francis hyd at y gylchfan fach. Wrth y gylchfan fach, defnyddio'r ail allanfa a pharhau i gyfeiriad y de-orllewin ar hyd Heol y Prior hyd at y gylchfan fach. Wrth y gylchfan fach, defnyddio'r allanfa gyntaf a pharhau i gyfeiriad y de-orllewin ar hyd Heol yr Eglwys, Heol Spilman, a Heol y Castell, gan aros ar ochr dde'r lôn hyd at y goleuadau traffig. Wrth y goleuadau traffig, parhau i gyfeiriad y gorllewin ar hyd Ffordd y Cwrwg hyd at gylchfan Heol Las. Wrth y gylchfan, defnyddio'r drydedd allanfa a pharhau i gyfeiriad y de-orllewin ar hyd yr A4242 hyd at gylchfan Lôn Morfa. Wrth y gylchfan, defnyddio'r ail allanfa a pharhau i gyfeiriad y gogledd-orllewin ar hyd Lôn Morfa.

Docusign Envelope ID: 2FCCDB7E-E2AE-4B23-8983-D7A5D9F4419A

Y ffordd arall ar gyfer traffig sydd am deithio tua'r de-ddwyrain ar hyd Heol Morley a Ffordd y Farchnad, wrth deithio tua'r de-orllewin ar hyd Heol y Gwyddau, fydd parhau i gyfeiriad y de-orllewin ar hyd Heol y Gwyddau hyd at gylchfan y Milford Arms. Wrth y gylchfan, defnyddio'r allanfa gyntaf a pharhau i gyfeiriad y de-ddwyrain ar hyd Lôn Morfa.

3. Ni fydd unrhyw beth yn Rheoliad 1 o'r Gorchymyn hwn yn berthnasol ynghylch atal unrhyw berson rhag achosi i unrhyw gerbyd deithio neu aros ar neu yn y darnau ffyrdd y cyfeirir atynt ynddo os yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion y gwasanaethau tân neu ambiwlans neu gerbyd yng ngwasanaeth yr heddlu mewn unrhyw achos o'r fath sy'n cael ei ddefnyddio yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol.
4. Rhaid i unrhyw berson sy'n cael cyfarwyddyd neu ganiatâd gan Heddwas yn ei lifrai, i deithio, reidio neu yrru cerbyd ymlaen neu achosi neu ganiatáu i gerbyd aros ar neu yn y darnau ffyrdd a ddisgrifir yn Rheoliad 1 o'r Gorchymyn hwn yn ystod yr oriau dywededig ar y dyddiau dywededig ufuddhau i gyfarwyddiadau'r heddwas ac unrhyw heddwas arall mewn lifrai, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu neu berson awdurdodedig arall.

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Ar y ddogfen hon ar y 24

o Hydref ym mhresenoldeb:



Signed by:

Steven P Murphy

6947BF055CF64B2...

19421

PENNAETH GWEINYDDIAETH A'R GYFRAITH